CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

Nodiadau Cyfarfod y Fforwm Aelodau / Grŵp Technegol ar y Cyd a gynhaliwyd ar ddydd Llun 10fed Tachwedd 2003, 10.30am Canolfan Ddinesig Penllergaer.

Yn bresennol

Y Cynghorydd Pam Palmer (Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin.
Y Cynghorydd T Theophilus	Cyngor Sir Caerfyrddin.
Y Cynghorydd Alun Lloyd Jones	Cyngor Sir Ceredigion.
Y Cynghorydd Keith Evans	Cyngor Sir Ceredigion.
Y Cynghorydd RM Granville	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.
Y Cynghorydd W H C Teesdale	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.
Y Cynghorydd Derek Vaughan	CBSCNPT.
Y Cynghorydd T.D Morgans	CBSCNPT.

Swyddogion

Geoff White	CBSCNPT.
Belinda Herbert	Research & Marketing Cyf.
Sarah Winstanley	Research & Marketing Cyf.
Carol A. Williams	Cyngor Sir Penfro / Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.
Richard Workman	Cyngor Sir Caerfyrddin.
N. Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin.
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin.
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.
Wil Watson	CBSCNPT.
John Flower	CBSCNPT.
Howell Beaton	CBSCNPT.
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe.
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe.
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion.
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (Ardal De-orllewin Cymru)
Niall Reynolds	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Ardal y De-orllewin)
Karin Black	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Caerdydd)
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Sue Martin	Is-adran Gynllunio y Cynulliad Cenedlaethol.

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Mary Taylor	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Y Cynghorydd Brian Hall	Cyngor Sir Penfro.
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.
Y Cynghorydd D I E Jones	Dinas a Sir Abertawe.
Y Cynghorydd B Owen	Dinas a Sir Abertawe.
Phillip Marks	Cylch.
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

2. **Cyflwyniad.**

Cafodd yr aelodau gyflwyniad gan Research Marketing am yr ymgynghoriad cyhoeddus (amgaeir copi o'r sleidiau gyda'r Cofnodion).

Cododd y pwyntiau trafod canlynol:

- Codwyd mater y gost yn y grwpiau ffocws, ond nid yn yr arolwg post.
- Targedau cynradd oedd y prif ffocws yn hytrach na'r targedau eilradd.
- Ni chodwyd na thrafodwyd safleoedd penodol, ond roedd y grwpiau ffocws yn ymwybodol o fater NIMBY.
- Cadarnhawyd bod 900 yn ystadegol ddilys.
- Petai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi byddai angen cynnwys ystadegau am y boblogaeth.
- Pam roedd y trydydd opsiwn yn llai poblogaidd yn y grwpiau ffocws – roedd yn ymddangos bod ofn gorfod 'ariannu' y cyfleuster, ac ofn gwerthu i drigolion lleol.
- A oedd lleoliad cyfleuster yn agos at gasgliad yn fater – codwyd y mater hwn gan y Buddiolwyr – mae angen datblygu cyfleusterau, e.e. gwydr, awgrymwyd y gallai hyn ddibynnu ar beth sy'n digwydd yn hwyrach am fod angen ystyried y gost gyfan.
- A oes pwyslais trwm ar bobl yn aros i gyflawni mwy na'r targedau? Nac oes.
- Adborth o ddiwydiant? Roedd pryder ynglŷn â'r targedau y gellid eu cyflawni, ond roedd yr ymateb yn wael.
- Canlyniadau tebyg iawn yn ardal y De-ddwyrain. (Fe fydd y rhain yn cael eu rhannu pan fyddant ar gael.)
- Ydy'r ymateb o gyfarfodydd Asiantaeth yr Amgylchedd â diwydiant wedi cael ei fwydo i'r adroddiad? Nac ydy, dosbarthwyd yr ymateb i'r GTRh.
- A oes gennym ddata cymharol ar gyfer gweddill Ewrop? Mae angen cadarnhau hyn oherwydd fe fyddai'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni, ond mae'n rhannol ymwneud â diwylliant, cost a deddfwriaeth.

3. **Trafodaeth am yr Opsiwn.**

- Mae'n anodd amgyffred yr hyn y mae Opsiwn 6 yn ei olygu. Mae angen i'r cyhoedd gael cadarnhad o ran nifer y safleoedd. Mae hyn yn adroddiad Cyfnod 2.
- Bydd y cyfleusterau'n cael eu harwain yn fasnachol, bydd angen partneriaethau. Bydd y symiau yn y CGRh yn hysbysu'r ddadl.
- Gwelwyd mai Opsiwn 6 ddylai fod ein nod.
- Mae'r ymgynghoriad wedi dangos yn glir bod y cyhoedd yn gallu deall yr Opsiynau. Ond pa mor bell ymlaen ydym ni o ganlyniad i hynny? Bydd gwastraff peryglus yn lleihau i sero erbyn mis Gorffennaf nesaf. Mater brys yw hwn. Mae angen nodi'r bil cyfan, yr amserlen a'r cyfleusterau – beth yw gwasgariad y cyfleusterau er mwyn cyflwyno ateb synhwyrol a chost-effeithiol? Mae angen cynnwys nifer a math y cyfleusterau.
- Mae angen i fater y CDU fod yn safle benodol. Mae rhai awdurdodau'n dweud na allant gynnwys safleoedd yn y cynllun. Gellir gwneud llawer o hyn trwy

ddyrannu safleoedd diwydiannol B2. Ond, mae gwastraff peryglus a chladdu sbwriel yn dal i fod yn faterion anodd.

- Mae angen trafod cynnwys y CGRh ymhellach ddydd Gwener (cyfarfod y CGRh) – mae angen ystyried nifer a math y cyfleusterau. Mae'n bosib y bydd rhoi'r cynllun ar waith yn ysgogi mwy o ddiddordeb.
- Mae cyllid a buddsoddiad yn fater anodd i ddiwydiant.
- Mae Abertawe'n teimlo bod gan Opsiwn 1 y potensial i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unedol, gydag Opsiwn 6 fel nod i anelu ato.
- Mae problem o ran ymgorffori Opsiwn 6 yn y Cynlluniau Datblygu Unedol h.y. mae problem o ran dyrannu ar gyfer yr holl safleoedd hyn nawr.
- Mae Cynlluniau Datblygu Unedol am 15 mlynedd ac felly y tu hwnt i 2013 – mae angen ymdrin â hyn.
- A ddylem ystyried rhoi'r cynllun ar waith cam wrth gam fel ffordd ymlaen gydag amserlen sy'n symud yn raddol o Opsiwn 1 i Opsiwn 6?
- A ydyn ni'n torri ffon i guro'n hunain gydag Opsiwn 6 ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Unedol?
- Mae'n rhaid ystyried materion y tymor hir er mwyn sicrhau buddsoddiad o ddiwydiant.
- Roedd angen ymrwymiad 25 mlynedd ar y MREC yn Crymlyn Burrows. Ond nid ydym am gael (dywedwch) 10 cyfleuster yn ystod y 3 blynedd cyntaf. Rydym am weld y math hwn o gyfleusterau ac yna'r amserlen gysylltiedig. Roedd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol yn cytuno â hyn yn gyffredinol, cyn belled ag y gellid ei adlewyrchu yng ngosodiad y Cynllun, ac na fyddai anghenion diwydiant a masnach yn cael eu hanwybyddu. Ymateb cyntaf Sue Martin (yn bersonol) oedd y gallai'r ymagwedd hon fod yn un resymol, yn enwedig gyda phroses adolygu 5 mlynedd Cynlluniau Datblygu Unedol a monitro parhaus ac adolygiad 3 blynedd Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol. Cytunodd Cathy O'Brien ei bod yn ymagwedd resymol hefyd.
- A ellir cadarnhau hyn erbyn dydd Gwener? Bydd SM yn ceisio cael adborth.

4. **<u>Y Cyfarfod Nesaf</u>**.

GTRh dydd Gwener 14eg 2.30p.m.
FfARh dydd Gwener 28ain 2.30p.m.

5. **<u>Busnes Arall.</u>**

Seminar ddefnyddiol ar Wastraff Peryglus (a drefnwyd gan WAW) – anawsterau problemau claddu sbwriel erbyn mis Gorffennaf nesaf. Mae'n bosib y bydd yn briodol i'r FfARh gael cyflwyniad. Mae'n effeithio ar awdurdodau lleol yn uniongyrchol. Fe fydd yn effeithio'n drwm ar ffermwyr. Materion adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol.